**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed MAWRTH 2010**

## DATBLYGU AMCANION LLEIHAU RISG

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i symud ymlaen a datblygu amcanion lleihau risg dan dri phennawd yn 2011-12 a thu hwnt.

## Cefndir

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi, erbyn Hydref 31 bob blwyddyn, gynlluniau sy'n nodi ei amcanion ar gyfer gwella a lleihau risg yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

3 Roedd ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn 2009 yn gyfle i bwyso a mesur ymateb y staff a'r cyhoedd i bedwar maes pwnc lleihau risg. Roedd y rhain yn ymwneud â gweithio gyda phobl ifanc, y system dyletswydd yn ôl y galw, cyd-ymateb ac yn fwy cyffredinol, ei agwedd tuag at ariannu.

4 Wedi ystyried yr ymateb a ddaeth i law, rhyddhaodd y Panel Gweithredol ddatganiadau sefyllfa mewn perthynas â'r tri cyntaf – ynghlwm yn atodiad 1 er gwybodaeth.

5 Wedi hynny, bu is-grŵp o Weithgor Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod yn cyfarfod bum gwaith rhwng Tachwedd 2009 a Chwefror 2010 er mwyn parhau i ddatblygu cyfres o amcanion lleihau y byddai'r Awdurdod yn anelu i'w cyflawni o Ebrill 2011 ymlaen.

6 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno allbwn yr is-grŵp hwnnw, ac yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod llawn i fynd ymlaen i ddatblygu amcanion lleihau risg drafft a fydd yn sail i'r ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos yr haf nesaf.

7 Y cam nesaf fydd datblygu Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2009-2012, wedi ei grynhoi mewn dogfen i ddiben ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym Mehefin 2010.

8 Bydd cynnwys y Cynllun drafft ar ôl yr ymgynghoriad yn y pen draw yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod llawn yn ei gyfarfod yn Hydref 2010 i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2010.

## Gwybodaeth

9 Gan fynd â'r broses yn ei blaen, mae'r amcanion lleihau risg penodol sydd wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer 2011-12 a thu hwnt yn ymwneud â:

- Chynaliadwyedd
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rheoli Parhad Busnes.

10 Mae safon cyrraedd yr Awdurdod mewn perthynas â'r Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr hefyd wedi cael ei ystyried gan y Gweithgor Cynllun Lleihau Risg, ond ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliad yn dilyn y gwaith dadansoddol a wnaed hyd yn hyn o ran y cwestiwn a oes angen gwneud unrhyw newid i'r safon gyfredol, sef 20 munud.

## Argymhelliad

11 Gofynnir i'r Aelodau:
a) nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn;
b) nodi'r datganiadau ynghlwm yn atodiad 1; a
b) chymeradwyo'r gwaith o ddatblygu amcanion lleihau risg mewn perthynas â chynaliadwyedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth a rheoli parhad busnes.

Atodiad 1

**Datganiadau sefyllfa gan yr Awdurdod yn dilyn y broses ymgynghori Cynllun Lleihau Risg yn Haf 2009.**

## Gweithio gyda phobl ifanc

Mae'r Awdurdod yn gwbl gefnogol i waith y gwasanaeth gyda phobl ifanc, ac mae'n ymwybodol fod y Cynulliad wedi comisiynu darn o waith ar ddyfodol gweithio gyda phobl ifanc a phlant o fewn y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Mae'r Prif Swyddog Tân wedi cael y dasg o redeg grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn datblygu strategaeth tân ac achub plant a phobl ifanc. Bydd yr adroddiad terfynol yn barod erbyn mis Mawrth. Mae'r aelodau'n edrych ymlaen at dderbyn y strategaeth mewn cyfarfod i ddod.

## Y System Dyletswydd yn ôl y Galw

Mae'r Awdurdod yn nodi bod y Cynulliad wedi sefydlu pwyllgor i gynnal adolygiad o'r System. Mae'r Awdurdod yn edrych ymlaen at yr adolygiad, ac mae'n gefnogol i roi ystyriaeth i drefniadau gwreiddiol a hyblyg ar gyfer cynnal y gofal tân mewn ardaloedd gwledig.

## Cyd-ymateb

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â mynd ymlaen â'r cynllun cyd-ymateb.